

# Cynigion am ddim i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol Iedled y DU

13/05/2021



Credit: Nottingham Castle

Mae'r rhestr o safleoedd treftadaeth sy'n cymryd rhan yn Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol ym mis Mehefin wedi'i chyhoeddi – edrychwch ar rai o'n hoff gynigion i chi edrych ymlaen atyn nhw.

Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi £30miliwn at achosion da bob wythnos. Ers mis Mawrth 2020, mae dros £1biliwn o arian y Loteri Genedlaethol wedi helpu cymunedau, pobl a sefydliadau y mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith arnynt i godi ar eu traed unwaith eto.

I ddweud 'DIOLCH' yn fawr i chwaraewyr, mae cannoedd o brosiectau a gefnogir gan y Loteri Genedlaethol yn cymryd rhan yn Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol eleni rhwng **5-13 Mehefin**.

## Beth sydd ar gael?

Mae llawer o safleoedd treftadaeth yn cynnig cynigion mynediad am ddim drwy gydol yr wythnos. Dyma rai o'n ffefrynnau hyd yn hyn:

### **Neuadd Gwnstabl a Thir Burton, Dwyrain Swydd Efrog**



Burton Constable

Mae gan Burton Constable 30 o ystafelloedd a 330 erw o barcdir gyda bywyd gwyllt i'w archwilio. Yn 2012, derbyniodd maenordy'r 15fed ganrif grant o £417,800 gan y Loteri Genedlaethol i adfer ei floc stabl rhestredig Gradd I. Mae'r gegin sefydlog bellach yn gweini lluniaeth a danteithion i ymwelwyr. Gall chwaraewyr y Loteri Genedlaethol gael mynediad am ddim ddydd Iau 10 Mehefin.

### **RSPB Ynys-Hir, Canolbarth Cymru**

Mae gwarchodfa natur Ynys-Hir yn dwyn ynghyd gymysgedd rhyfeddol o gynefinoedd, gan gynnwys coetiroedd, corsydd, glaswelltiroedd a phyllau d'r croyw. Helpodd grant gwerth £250,000 gan Gronfa Argyfwng Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i staff ofalu am fywyd gwyllt trawiadol y warchodfa yn ystod y pandemig. Maent yn cynnig mynediad am ddim i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol drwy gydol yr Wythnos Agored.



Gwarchodfa Natur Ynys-Hir

## Amgueddfa Genedlaethol Hedfan, Yr Alban



Amgueddfa Genedlaethol Hedfan

Fel yr unig amgueddfa genedlaethol sy'n casglu treftadaeth hedfan fasnachol yn y DU, mae Amgueddfa Genedlaethol Hedfan yn East Fortune yn rhoi cipolwg diddorol ar hanes hedfan. Yn wreiddiol fel maes awyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, mae gan yr amgueddfa fwy na 50 o awyrennau gwreiddiol a'r Profiad Concord poblogaidd. Yn ystod yr Wythnos Agored maent yn

cynnig mynediad am ddim ar 12 a 13 Mehefin.

## **Castell Nottingham**

Bydd tirnod Nottingham (prif ddelwedd) yn ailagor ar 21 Mehefin yn dilyn prosiect ail-ddatblygu gwerth £30 miliwn, a oedd yn cynnwys dros £14m o gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd naw man arddangos a llwybrau treftadaeth awyr agored newydd yn ymchwilio i straeon Nottingham, gan gynnwys y chwedl leol Robin Hood. Gall chwaraewyr y Loteri Genedlaethol gymryd rhan mewn raffl i gael mynediad am ddim.

## **RSPB Window on Wildlife, Belffast**



Gylfinir yn RSPB NI. Credyd: Stephen Maxwell

Mae Window on Wildlife, ar lannau Belffast Lough, yn gartref i adar a bywyd gwyllt o bob cwr o'r byd. Helpodd Cronfa Argyfwng Treftadaeth gwerth £214,900 i RSPB Gogledd Iwerddon agor cyfleusterau ymwelwyr a chysylltu pobl â natur yn ystod y pandemig, gan gynnwys drwy ffrydiau byw ar-lein. I ddweud diolch, maent yn cynnig mynediad am ddim ar 5–7 Mehefin a 9–13 Mehefin.

## **Strawberry Hill House, Llundain**

Wedi'i lleoli ar lannau'r Tafwys yn Twickenham, Strawberry Hill House oedd cartref gwleidydd, awdur a hanesydd celf Horace Walpole (1717-1797). Derbyniodd preswylfa'r Adfywiad Gothig Sioraidd grantiau'r Loteri Genedlaethol gwerth dros £5.5m yn flaenrol ar gyfer ei hadfer, a gwblhawyd yn 2015. Yn ddiweddar, cefnogodd Cronfa Argyfwng Treftadaeth gwerth £163,900 y t? gwyh drwy'r pandemig. I ddweud diolch, yn ystod yr Wythnos Agored bydd yn cynnig mynediad 2-am-1 i ddeiliaid tocynnau'r Loteri Genedlaethol.



Y tu mewn i Strawberry Hill House

## Gweld yr holl gynigion

Y tu hwnt i fynediad am ddim, mae'r ystod o gynigion yn cynnwys teithiau unigryw y tu ôl i'r llenni, digwyddiadau ar-lein a diodydd poeth am ddim.

Gweler gwefan [Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol](#) am restr lawn o gynigion, gan gynnwys sut i gael gafael arnynt. A pheidiwch ag anghofio cadw golwg dros yr wythnosau nesaf am gynigion mwy cyffrous yn eich ardal chi.

## Nid yw'n rhy hwyr i gymryd rhan

Os ydych yn brosiect neu'n sefydliad a ariennir gan y Loteri Genedlaethol, mae amser o hyd i gofrestru ar gyfer [Wythnos Agored 2021](#).

**Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...**

Amgueddfa Genedlaethol Hedfan. Credyd: Ruth Armstrong

**Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol: dweud 'diolch yn fawr' i'r chwaraewyr**

**Y Loteri Genedlaethol yn rhoi mwy na £1biliwn i fynd i'r afael ag effaith COVID-19**

[Back from the Brink with their 2019 National Lottery Award for best heritage project](#)

[Pwy fyddwch chi'n ei enwebu yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol eleni?](#)